

Polisi Rheoli a Datblygu Cynnwys Llyfrgelloedd a Chasgliadau

Dyddiad Dod i Rym: Ionawr 2025
Diwygiad Diwethaf: Mehefin 2017
Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2026
Corff Cymeradwyo: Tîm Arweinyddiaeth y Llyfrgell



Perchennog Polisi: Llyfrgelloedd a Chasgliadau

Awdur y Polisi: Annette Linton, Pennaeth Cynnwys y Llyfrgell a Chyfathrebu Ysgolheigaid, a.m.linton@swansea.ac.uk

Cefndir / Crynodeb

Mae'r polisi hwn yn egluro fframwaith a ddefnyddir gan Llyfrgelloedd a Chasgliadau i ddewis, caffael, rheoli, adolygu a thynnu cynnwys o'u portffolio o adnoddau gwybodaeth neu gynnwys y llyfrgell. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i strategaeth y Brifysgol, cenhadaeth Llyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe a gofynion gweithredol.

Diben

Ein cenhadaeth yw arwain at ddarparu mynediad at gasgliadau gwerthfawr sy'n ysbrydoli ac yn llywio eich gwaith dysgu ac ymchwil, ac yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gyflawni rhagoriaeth academiaidd. Ein gweledigaeth yw y bydd ein casgliadau, ein gwasanaethau a'n gofod yn gwbl agored, hygyrch a chynhwysol erbyn 2027. Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau'n caffael cynnwys ar sail ddigidol yn gyntaf gyda'r prif ffocws ar gyrchu neu gysylltu defnyddwyr â chynnwys llyfrgell ar-lein a ddarperir yn allanol. Mae casgliadau print yn dal i gael eu prynu lle mae diffyg argaeledd digidol neu er mwyn helpu i ddarparu cynnwys lle darperir mynediad digidol.

Cwmpas / Eithriadau

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chynnwys ysgolheigaid digidol a ffisegol a reolir gan Llyfrgelloedd a Chasgliadau. Mae polisiâu penodol yn bodoli ar gyfer y deunyddiau hynny a gedwir fel rhan o gasgliadau diwylliannol y Brifysgol.

Diffiniadau

Telerau penodol i'r Polisi hwn.

Cynnwys y Llyfrgell	Rydyn ni'n defnyddio'r term hwn gan ei fod yn cyfleu'n well natur hybrid adnoddau gwybodaeth sy'n cynnwys llyfrau, cyfnodolion, cronfeydd data a gwasanaethau ffrydio.
iFind	Gwasanaeth darganfod Llyfrgelloedd a Chasgliadau sy'n chwilio drwy'n casgliadau print ffisegol a digidol gan ddarparu gwybodaeth am sut i gael gafael ar gasgliadau gan gynnwys mynediad di-dor at gynnwys digidol.
iFind Reading	Gwasanaeth rhestr ddarllen Prifysgol Abertawe sy'n caniatáu i weinyddwyr rhestrau darllen greu a rheoli eu rhestrau darllen ac

Datganiad Polisi

1. Egwyddorion cyffredinol

Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn dewis cynnwys ysgolheigaidd gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

- Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein cynnig cynnwys i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion dysgu, addysgu ac ymchwil cyfredol ac esblygol.
- Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad teg i bob defnyddiwr a chynyddu amrywiaeth ein casgliadau.
- Byddwn yn prynu cynnwys ar sail ddigidol yn gyntaf gan fod hyn yn hwyluso mynediad teg p'un ai ar y campws neu oddi arno. Byddwn yn dal i brynu llyfrau print lle nad oes dewis digidol amgen ar gael neu lle mae costau darpariaeth ddigidol yn rhy ddrud i ddarparu enillion boddhaol ar fuddsoddiadau.
- Byddwn yn caffael cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer addysgu trwy restrau darllen cyfredol a gyhoeddir gan staff academaidd drwy'r gwasanaeth iFind Reading. Dylid nodi eitemau fel rhai hanfodol neu rai a argymhellir.
- Byddwn yn asesu nifer y copïau a/neu drwyddedau ar gyfer caffael monograffau yn dibynnu a oes ei angen ar gyfer addysgu neu ymchwil. Yn achos y cyntaf, p'un ai yw'r teitlau yn hanfodol, yn cael eu hargymell neu'n ddarllen cefndir a'r galw disgwylidig h.y. nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r teitl.
- Byddwn yn monitro'r opsiynau cyflenwi gorau ar gyfer cynnwys y llyfrgell ac yn sicrhau gwerth gorau. Lle bo modd, byddwn yn defnyddio fframweithiau a chytundebau caffael y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.
- Rydym wedi ymrwymo i archwilio modelau newydd ac arloesol o gaffael cynnwys. Mae hyn yn golygu defnyddio dulliau fel caffael seiliedig ar alw a/neu gaffael ar sail tystiolaeth yn ogystal â chyflenwi trwy gyflenwi dogfennau a/neu ddigideiddio cynnwys. Yn eu cenhadaeth i ddarparu mynediad at gasgliadau gwerthfawr, nid yw Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn gwarantu y bydd mynediad yn cael ei ddarparu drwy brynu. Bydd y pwyslais ar gyflenwi anghenion addysgu ac ymchwil yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol a chynaliadwy.
- Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn gyfrifol am reoli gofod yn eu hadeiladau, gan sicrhau bod pob rhan o'i hadeiladau, gan gynnwys manau astudio, yn diwallu anghenion defnyddwyr ac yn cydymffurfio â gofynion statudol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a hygyrchedd. Fel rhan o'i waith rheoli gofod, bydd deunydd sydd wedi dyddio, fel rhifynnau blaenorol a chynnwys prin ei ddefnydd yn cael eu hadolygu a'u datgomisiynu fel y bo'n briodol.
- Bydd gweithdrefn adolygu pob casgliad yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid gan ddefnyddio data i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Defnyddir meini prawf clir wrth adolygu'r holl gasgliadau. Rydym yn trafod hyn yn fanwl yn adrannau 10 ac 11.
- Mae ein casgliadau ffisegol yn cael eu rheoli fel a ganlyn:
 - Silffoedd agored sy'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr y llyfrgell, ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i anghenion dysgu, addysgu ac ymchwil cyfredol y Brifysgol. Gall hyn gynnwys defnyddio silffoedd cywasgedig dwysedd uchel mewn ardaloedd agored hygyrch yn adeiladau'r llyfrgell.

- Storio canolog ar gyfer stoc defnydd isel, sy'n dal i fod yn berthnasol i anghenion ymchwil y Brifysgol yn y dyfodol neu gynnwys o bwys hanesyddol. Byddwn yn gwirio cynnwys yn y categori hwn am fodolaeth fersiwn ddigidol. Os oes mynediad parhaol i fersiwn ddigidol, yna bydd yr eitem yn cael ei dad-ddyblygu ac efallai y byddwn yn tynnu'r eitem ffisegol yn ôl. Mae hyn yn berthnasol i gyfnodolion, a bydd unrhyw gynnwys sy'n cael ei gadw mewn storfa yn dal ar gael i ddefnyddwyr trwy wasanaeth adalw. Dim ond hyn a hyn o le sydd yn storfa ganolog y campws ac mae gofyn rheoli'r lle hwnnw'n ofalus.
 - Mae Casgliadau Arbennig yn canolbwyntio ar gynnwys unigryw sydd o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn unol â'r Polisi Datblygu a Rheoli Cynnwys Llyfrgelloedd a Chasgliadau. Bydd mynediad i'r adnoddau hyn drwy fynediad wedi'i gyfyngu ar sail cyfeirio yn unig. Gall hyn gynnwys defnyddio ystafelloedd darllen ac efallai y bydd angen cymorth arbenigol i drin eitem oherwydd ei chyflwr ffisegol.
- Rydym wedi ymrwymo i reoli a lleihau ôl troed (h.y. arwynebedd llawr) ei gynnwys ffisegol yn ôl yr angen. Bydd hyn yn golygu defnyddio'r strategaethau uchod yn ogystal â rhesymoli stoc nad yw'n cael ei ddefnyddio rhyw lawer a/neu hen stoc.
 - Byddwn yn cynnal dadansoddiad data rheolaidd o'r defnydd er mwyn pennu gwerth cyffredinol am arian a pherthnasedd parhaus i ddysgu, addysgu ac ymchwil.
 - Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad teg i bob defnyddiwr.
 - Rydym yn cadw'r hawl i wrthod prynu unrhyw eitem nad yw'n cyd-fynd â nod penodol y Polisi Datblygu a Rheoli Cynnwys a'r Brifysgol.
 - Rydym yn cadw'r hawl i wrthod cynigion o roddion sy'n anghyson â'r polisi hwn a/neu oherwydd materion amgylcheddol ehangach fel gofod.
 - Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i bob campws a llyfrgell sy'n rhan o rwydwaith Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe.

2. Beth ydym ni'n ei brynu?

Mae cynnwys y llyfrgell mewn amrywiaeth eang o fformatau. Trwy fabwysiadu polisi digidol yn gyntaf lle bo'n bosibl, byddwn yn prynu'r e-lyfr cyn unrhyw gopïau print. Wrth gaffael copïau print, byddwn yn dyrannu categori benthyg a lleoliad priodol yn unol â'r galw disgwylidig.

i. Llyfrau

Rydym yn prynu llyfrau i gefnogi addysgu ac ymchwil, gan ffafrio'r fformat digidol. Byddwn yn caffael y fersiwn brint pan nad oes opsiwn digidol ar gyfer teitl neu os yw'n costio gormod. Lle bo modd, byddwn yn prynu e-lyfrau cyn unrhyw gopïau print gan eu bod yn rhoi gwell gwerth a mynediad, er enghraifft, gwerslyfrau â chryn alw amdanynt a chyfeirlyfrau o bwys. Bydd e-werslyfrau sydd â thrwydded un i un yn hytrach na thrwyddedau defnyddiwr lluosog yn cael eu hystyried fesul achos sy'n cynnwys bod angen clir am fynediad digidol ac nid oes trwyddedau llyfrgell amgen ar gael.

- Deunydd rhestri ddarllen

Byddwn yn gweithio'n agos gyda staff academiaidd i sicrhau bod deunydd rhestri darllen yn cael ei gaffael ac ar lefel i gefnogi'r galw disgwylidig. Wrth brynu copïau print o deitl, byddwn yn asesu nifer y copïau sydd eu hangen yn seiliedig ar -

- Nifer y myfyrwyr sydd angen y teitl

- Cost y teitl mewn perthynas â'r gyllideb a ddyrannwyd
 - Statws y teitl o safbwynt a yw'n ddarllen hanfodol neu'n ddarllen cefndirol.
- Deunyddiau nad ydynt ar y rhestr ddarllen

Byddwn yn ymdrechu i brynu eitemau a argymhellir gan staff a myfyrwyr sy'n cefnogi astudio amrywiaeth ehangach o ddeunydd perthnasol neu'n cynorthwyo staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn eu maes pwnc a/neu eu hymchwil. Fel arfer bydd hyn yn golygu prynu un copi oni bai bod tystiolaeth yn pennu fel arall.

ii. Cyfnodolion a thanysgrifiadau eraill

Bydd fersiwn ddigidol o deitl yn cael ei chaffael gyda thanysgrifiadau print yn unig neu brint a digidol yn cael eu hystyried lle mai'r rhain yw'r unig opsiynau cyflenwi sydd ar gael. Gall pecynnau e-gyfnodolion fod o fudd o ran amrywiaeth y teitlau a gwerth am arian, ond bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyd y trefniant, trwyddedu ac archifo.

Rydym yn caffael cronfeydd data testun a llyfryddiaethol llawn hefyd i gefnogi anghenion dysgu, addysgu ac ymchwil cyfredol y brifysgol. Bydd yn well prynu mynediad i'r holl danysgrifiadau a phecynnau trwy drefniadau cenedlaethol, sy'n darparu mynediad cydamserol o bell trwy fecanweithiau dilysu safonol y Brifysgol. Ni fyddwn yn cefnogi setiau data annibynnol sy'n gofyn am gynnal uniongyrchol a rheoli enwau defnyddwyr a chyfrineiriau ar lefel llyfrgell.

iii. Deunyddiau di-lyfr a chlyweledol

Mae Llyfrgell Parc Singleton yn cadw casgliad sylweddol o gynnwys ffisegol y llyfrgell megis microffilm, crynoddisgiau a DVDs. Mae ein casgliad DVD yn bodoli at ddefnydd academaidd cyfreithlon yn unig, dan delerau cyfraith hawlfraint y DU a thrwydded ERA (Asiantaeth Recordio Addysg) y Brifysgol.

Pan fydd fformatau wedi newid neu wedi darfod, byddwn yn adolygu angen academaidd parhaus yr eitem a lle bo'n briodol yn ceisio prynu'r cynnwys trwy wasanaeth neu fformat cyfoes e.e. gwasanaeth ffrydio neu ddatgomisiynu oherwydd bod y cynnwys wedi darfod.

iv. Traethodau ymchwil

Mae traethodau ymchwil wedi'u cyflwyno'n ddigidol ers 2021. Rydym yn darparu mynediad at draethodau ymchwil doethurol a rhai traethodau graddau meistr drwy 'Cronfa', storfa sefydliadol Abertawe, Mae copïau ffisegol a gyflwynwyd cyn y dyddiad hwn yn cael eu storio yn Llyfrgell Singleton gyda chasgliad bach yn Llyfrgell y Bae. Dim ond yn adeilad y llyfrgell y gellir defnyddio'r rhain. Yn unol â rheoliadau'r Brifysgol, gall traethawd ymchwil fod yn destun cyfnod embargo e.e. oherwydd sensitifrwydd masnachol neu batent disgwylidig. Yn ystod y cyfnod hwn, cyfyngir ar bob mynediad i'r traethawd ymchwil.

Byddwn yn cyflenwi metadata i wasanaeth EthOS y Llyfrgell Brydeinig ac yn sicrhau bod fersiwn testun llawn y traethodau ymchwil ar gael fel sy'n ofynnol a heb gyfeirio ymhellach at yr awdur.

v. Gwasanaeth Cyflenwi Dogfennau

Mae'r holl staff academaidd a myfyrwyr yn gallu gofyn am fynediad at eitemau nad ydynt yn cael eu cadw yn unrhyw un o lyfrgelloedd campws y brifysgol, drwy'r

Gwasanaeth Cyflenwi Dogfennau. Pan fydd galw mawr am adnodd a geir trwy'r dull hwn, byddwn yn ceisio bodloni'r cais trwy brynu'r eitem.

Mae ein gwasanaeth digideiddio yn rhoi'r opsiwn i gynhyrchu copïau digidol o gynnwys print llyfrgell i'w cynnwys yn amgylchedd dysgu rhithwir y brifysgol (h.y. Cynfas).

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dan delerau Trwydded Addysg Uwch yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA).

3. Mynediad Agored

Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn cefnogi Mynediad Agored ac yn hyrwyddo'r egwyddor o gadw hawliau awduron yn unol â Pholisi Cyhoeddiadau Ymchwil y Brifysgol. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi cyhoeddi cyfnodolion Mynediad Agored drwy bortffolio o gytundebau trosiannol sy'n galluogi academyddion ac ymchwilwyr sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Abertawe i gyhoeddi o dan y cytundebau hyn heb unrhyw gostau neu gostau is.

Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y cytundebau hyn i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian ac yn cefnogi nodau Mynediad Agored tymor hir. Mae hyn yn cynnwys asesu opsiynau eraill i sicrhau Mynediad Agored a/neu ymestyn i gefnogi cyhoeddiadau ffurf hir.

4. Rhoddion a chyfraniadau

Ambell waith mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau'n derbyn ceisiadau i roi neu adneuo cynnwys ffisegol. Gallant amrywio o roddion syml bach i drefniadau cymhleth. Rydym wedi datblygu polisi ar wahân ar roddion – gweler y Polisi Rhoddion Llyfrgelloedd a Chasgliadau.

5. Cyllid a rheolaeth ariannol

Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn derbyn cyllideb a ddyrennir yn ganolog gan y Brifysgol ar gyfer holl gynnwys y llyfrgell.

Byddwn yn ceisio caffael cynnwys er mwyn cefnogi meysydd addysgu ac ymchwil newydd, ond lle na all wneud hyn o'i gyllideb bresennol, gall ofyn am arian ychwanegol er enghraifft, trwy broses cynllunio busnes y Brifysgol.

Mae'r broses o gaffael cynnwys y llyfrgell yn cael ei gwneud yn unol â pholisïau caffael ac ariannol y Brifysgol. Rydym yn defnyddio pob math o briodoleddau data i fonitro perthnasedd parhaus cynnwys, nodi bylchau yn ei bortffolio cynnwys ac adrodd yn unol â hynny. Defnyddir dangosyddion perfformiad i fesur effeithiolrwydd ein cyflenwyr ac i sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni.

6. Eitemau sydd wedi'u difrodi ac ar goll

Pan fydd eitem wedi'i difrodi neu ar goll, byddwn yn ceisio naill ai trwsio neu amnewid yr eitem i ddechrau cyn belled â'i bod yn dal yn hanfodol i gefnogi buddiannau addysgu a/neu ymchwil presennol y Brifysgol. Mae hyn yn dibynnu ar y gost a faint o gyllid sydd ar gael. Lle bo'n bosibl, bydd eitemau yn cael eu disodli gan fformat electronig.

7. Egwyddorion rheoli cynnwys

- a. Statws benthyciad – byddwn yn monitro'r defnydd i sicrhau bod cyfnod y benthyciad ar gyfer yr holl gynnwys ffisegol yn adlewyrchu'r galw ymhlith defnyddwyr. Os oes angen, byddwn yn addasu statws benthyciad eitemau ffisegol o fewn y flwyddyn academaidd mewn ymateb i newid yn y galw gan ddefnyddwyr.
- b. Tynnu stoc yn ôl – mae polisi dim twf ar waith mewn perthynas â chynnwys ffisegol ar draws rhwydwaith llyfrgelloedd y campws. Mae hyn yn tybio na fydd

ychwanegiad at ofod y Llyfrgell a bydd yr holl stoc yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn:

- Sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol.
 - Gwneud y defnydd gorau o'r gofod.
 - Cadw'r casgliad mewn cyflwr da.
 - Cynnal casgliad cyfredol.
- c. Bydd cynnwys sydd wedi dyddio, boed yn gynnwys ffisegol neu ddigidol, yn cael ei asesu a'r hawl mynediad naill ai'n cael ei diwygio neu ei dileu fel y bo'n briodol.
- d. Ystyried defnyddio silffoedd dwysedd uchel neu silffoedd cywasgedig fel rhan o'r broses rheoli gofod.
- e. Rheoli'r gofod sydd ar gael mewn cyfleusterau storio presennol ar y campws gyda buddsoddiad strategol mewn archifau digidol fel y bo'n briodol.

8. Adolygiad o gasgliadau ffisegol

Gan fod lle yn brin yn holl lyfrgelloedd campws Prifysgol Abertawe, mae polisi 'dim twf' ar gyfer cynnwys ffisegol yn hanfodol er mwyn galluogi lle astudio gwell a phrofiad gwell i ddefnyddwyr ym mhob llyfrgell ar y campws. Byddwn yn gweithio gyda staff academiaidd i adolygu a rhesymoli pob casgliad print, gan gael gwared ar ddeunydd sydd wedi dyddio fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau dim twf o gwbl o ran ôl troed ym mhob llyfrgell ar y campws. Mae'r defnydd o gyfleusterau storio allanol yn fodd i reoli cynnwys ffisegol mewn ffordd sy'n cydbwysu'r gofynion mewnol am fannau astudio a mynediad uniongyrchol at gynnwys ffisegol mwy poblogaidd. Fodd bynnag, mae costau sylweddol yn gysylltiedig â storio a chadw cynnwys y llyfrgell yn yr hirdymor.

Byddwn yn defnyddio'r canllawiau canlynol i asesu stoc a nodi pryd i storio neu gael gwared ar ddeunydd –

- Perthnasedd i ddysgu ac addysgu cyfredol ac esblygol fel y dangosir trwy ei bresenoldeb ar restrau darllen.
- Perthnasedd i ymchwil gyfredol ac ymchwil sy'n esblygu yn y Brifysgol.
- Posibilrwydd o berthnasedd i anghenion dysgu, addysgu ac ymchwil y Brifysgol yn y dyfodol.
- Disodli argraffiadau o werslyfrau.
- Deunyddiau heb eu defnyddio, neu prin wedi'u defnyddio, dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn ôl data benthyciadau, ond heb eithrio technegau sampl eraill. Rydym yn cydnabod y gallai rhai meysydd academiaidd fod angen cyfnod craffu byrrach neu hirach.
- A ydynt ar gael mewn llyfrgelloedd eraill, gan sicrhau mynediad at ddeunydd yn y dyfodol.
- Dyblygu ar draws llyfrgelloedd campws (oni bai bod rheswm dilys dros ddaliadau lluosog).
- Cadw deunyddiau prin/pwysig/rhestr ddarllen/hanesyddol neu bwysig yn lleol.
- Cael gwared ar ddaliadau byr iawn neu anghyflawn o gyfnodolion os ydynt ar gael mewn manau eraill, gan nad ydynt yn ychwanegu gwerth.
- Dyblygu ar draws llyfrgelloedd y campws (oni bai bod rheswm dilys dros ddaliadau lluosog).
- Cadw rhoddion/cyfraniadau lle mae cytundeb gwarchodol presennol neu os ydynt yn ychwanegu gwerth at y casgliad.
- A oes fersiynau digidol ar gael, lle bo hynny'n briodol.
- Cyflwr ffisegol. Os oes angen cadw, byddwn yn penderfynu a yw'n economaidd ymarferol i drwsio neu brynu copi newydd.
- Eitemau sydd angen eu cadw dan delerau Trwydded Sganio Sylfaenol Addysg Uwch yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA).

Llyfrgelloedd a Chasgliadau sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol i ddatgomisiynu cynnwys.

9. Gwaredu stoc a dynnwyd yn ôl

Bydd eitemau a dynnwyd yn ôl sydd o gyflwr ffisegol addas ac o ddiddordeb archifol posibl yn cael eu cynnig i Archifau Richard Burton yn y lle cyntaf, i'w hystyried dan delerau eu polisi casglu cyn gwaredu go iawn. Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau wedi ymrwymo i waredu stoc a dynnwyd yn ôl mewn modd moesegol ac amgylcheddol gynaliadwy.

10. Darganfod cynnwys y llyfrgell

Byddwn yn sicrhau bod yr holl gynnwys a gafaelwyd ar gael trwy ein gwasanaeth darganfod, iFind. Byddwn yn cynnal gwaith cyfrif stoc yn rheolaidd i sicrhau cywirdeb gwybodaeth yn iFind a gwella dulliau o ddarganfod cynnwys y llyfrgell - ffisegol a digidol.

11. Adolygiad polisi a pherchnogaeth

Bydd y Tîm Arweinyddiaeth Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn adolygu'r polisi hwn bob dwy flynedd ac mae'r cyfrifoldeb am gydlyn ei adolygiad blynyddol yn nwylo Pennaeth Cynnwys y Llyfrgell a Chyfathrebu Ysgolheigaidd.

Polisiau Cysylltiedig

Dolenni i unrhyw bolisiau cysylltiedig.

Teitl	Dolen
Polisi Rhestr Darllen Llyfrgelloedd a Chasgliadau	
Polisi Rhoddion Llyfrgelloedd a Chasgliadau	https://www.swansea.ac.uk/media/Swansea-University-Libraries-and-Collections-Donations-Policy-final.docx

Hanes Polisi

Dyddiad Diwygio	Awdur	Disgrifiad
Mehefin 2018	Llyfrgelloedd ac Archifau	Lansio'r polisi cyntaf ar reoli a datblygu cynnwys
Rhagfyr 2024	Llyfrgelloedd a Chasgliadau	Diweddarau a diwygio'r polisi